O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2012 Rhif 944 (Cy. 123)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Gorllewin o Sanclêr i Fan i'r Gorllewin o Ros-goch, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig Dros Dro) 2012

Gwnaed *23 Mawrth 2012*

Yn dod i rym *1 Ebrill 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Sanclêr - Doc Penfro (yr A477) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A477 (Man i'r Gorllewin o Sanclêr i Fan i'r Gorllewin o Ros-goch, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau a Gwaharddiad Traffig dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 1 Ebrill 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw:

i. y darn o gefnffordd yr A477 i'r gorllewin o Sanclêr yn Sir Gaerfyrddin sy'n ymestyn i gyfeiriad y gorllewin o bwynt sydd 93 o fetrau i'r de-orllewin o